



Cyngor Tref Aberteifi :: Aberteifi Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Rhagfyr 2008 am 6.30yh yn Ystafell Gwasanaeth Busnes Antur Teifi, Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 December 2008 at 6.30pm at Business Services, Antur Teifi, Pendre.

Presennol/Present—**Cynghorwyr/Councillors** Linda Grace (**yn y gadair/in the chair**), Alan Wilson, John Adams-Lewis, Mair Morris (**gadawodd y siambr am 6.58yh/left the chamber at 6.58pm**), Gwynfi Jenkins, Nicky Charlton-Lewis, Wynne Evans, Llwyd Edwards, y Clerc/the Clerk (Wynford Jones).

Roedd dau swyddog y wasg yn bresennol.

Two press officers were present.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer Lindsey Sheen, cyfarwyddwraig Menter Aberteifi, i'r cyfarfod. Lleisiodd y Cyng. Linda Grace ei phryderon ynglyn â sefyllfa bryderus siop Woolworths yn Aberteifi. Ychwanegodd y Cyng John Adams-Lewis am ofidiau y Plumb Centre yn yr un modd. Croesawodd y Maer y newyddion bod Cyngor Sir Ceredigion (CSC) yn trosglwyddo gofal tai o fewn eu hawdurdod i Dai Ceredigion. Penderfynwyd anfon llythyr i CSC yn gofyn am ostyngiad tâl parcio yn y meysydd parcio dros gyfnod y Nadolig; roedd hyn yn dilyn y newyddion bod awdurdodau cyfagos wedi gwneud hynny – amcan nodweddiadol yn y sefyllfa ariannol sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Llongyfarchwyd Opera Teifi ar eu cynhyrchiad diweddaraf, “Kiss Me Kate”. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth ar Ddydd y Cadoediad yn cynnwys Brigad Ambiwylans Sant Ioan.

1. The Chair's welcome and Personal Matters.

Cllr Linda Grace welcomed Mrs Lindsey Sheen of Menter Aberteifi to the meeting. Cllr Grace voiced her concern regarding the current position of Woolworth stores in Cardigan. Cllr J. Adams-Lewis added that the Plumb Centre was also experiencing difficulties with the threat of closure. The Mayor welcomed the news that Ceredigion County Council (CCC) was transferring the responsibility for housing in the county to Tai Ceredigion. She also instructed that a letter be sent to CCC requesting free car parking in the town over the festive season; this follows the news that a nearby town had waived charges – this was especially significant in the present economic climate. Opera Teifi was congratulated on their latest production, “Kiss Me Kate”. Gratitude was extended to all for supporting the Remembrance Day service, including St John Ambulance Brigade.

2. Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Melfydd George, Mark Cole, David Grace (yn cynrychioli cyngor y dre mewn pwyllgor gyda Chyngor Sir Ceredigion (CSC) ynglyn â “Mesurau Posib i Leihau Goleuo Strydoedd”), Ian Stoker, Catrin Miles.

2. Apologies: Cllrs Melfydd George, Mark Cole, David Grace (representing the town council at a meeting with

CCC: "Possible Measures to Reduce Street Lighting Costs"), Ian Stoker, Catrin Miles.

3. Trafodaeth gyda swyddogion yr heddlu: nid oedd heddwys ar gael.

3. Discussion with Cardigan Police Officers: no officer available.

4. Trafodaeth gyda Mrs Lindsay Sheen, Menter Aberteifi, i egluro'r ariannu ynglyn â'r daflen/wefan.

Gwahoddodd y Maer Mrs Lindsay Sheen i annerch y cyfarfod. Dywedodd Mrs Sheen mai hon oedd y 9fed flwyddyn i Fenter Aberteifi gynhyrchu taflen. Roedd yna brinder o 20% mewn ariannu'r fenter, ac am mai twristiaeth oedd y rhan amlycaf o'r cyhoeddiad ychwanegodd fod prosiect Cynllun Datblygu Gwledig wedi ei sicrhau er mwyn ariannu'r tair blynedd nesaf. Gobeithir ffurfio sefydliad twristiaeth i greu grwp i ddarganfod cyngor, rhwydweithio a hyfforddiant. Bydd y wefan yn ddwyieithog y flwyddyn hon, ac mae'r daflen wedi ei huwchraddio gydag ymateb positif oddi wrth hysbysebwy; drwy hyn mae £2,900 wedi ei sylweddoli. Mae costau cynhyrchu a dosbarthu'r daflen yn £8,000, yn gadael prinder o £1,000 o fewn y gyllideb. Gofynnodd Mrs Sheen a fyddai'r cyngor yn barod i bontio'r agendor ariannol yma. Lleisiodd y Cyng. J. Adams-Lewis ei ofid bod y daflen unwaith eto yn rhoi'r flaenoriaeth i "Cardigan" yn hytrach nag "Aberteifi". Cymeradwyodd safon y cynhyrchiad, ond pwysleisiodd taw'r Gymraeg ddylai gael y flaenoriaeth. Atebodd Mrs Sheen fod y mwyafrif o'r taflenni yn cael eu dosbarthu yn Lloegr ac o'r herwydd roedd yn rhaid pwysleisio "Cardigan" yn hytrach nag "Aberteifi" am resymau ymarferol.

Ychwanegodd y Cyng. Adams-Lewis y byddai, felly, yn gwrthwynebu'r cais ar y sail hon. Roedd Menter wedi dilyn canllawiau 'ymarfer da' CSC ynglyn â geiriad y daflen a hefyd cyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Gofynnodd y Cyng. Adams-Lewis i'r cyfarfod gofnodi ei wrthwynebiad i gynnig cymorth ariannol.

Cwestiynodd y Cyng. Gwynfi Jenkins paham nad oedd llun o Wyl Fawr Aberteifi ar y daflen. Dywedodd Mrs Sheen fod GFA wedi ei rhestru yn y dyddiadur ar y daflen a chytunodd y byddai dewis o luniau GFA i'w cynnwys ar y daflen gyfredol yn dderbyniol.

Cynigiwyd gan y Cyng. Wynne Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Wilson bod £1,000 i'w glustnodi i gyhoeddiad nesaf Menter Aberteifi o'r daflen ac i ddatblygu'r wefan.

Cariwyd y cynnig gyda phleidlais fwyafrifol.

4. Discussion with Mrs Lindsay Sheen, Menter Aberteifi, to clarify funding for leaflet/website. The Mayor invited Mrs Lindsay Sheen to address the meeting. Mrs Sheen stated that this was the 9th year that the leaflet and website had been produced by Menter Aberteifi. There was a 20% shortfall in the funding and as tourism was the most important aspect of the initiative she revealed that the Rural Development Plan project had been secured for funding during the next three years. It is hoped to form a tourism association to create a group to obtain advice, networking and training. The website would be bilingual this year and the brochure was upgraded annually with a positive response from advertisers which generated revenue of

£2,900. The total production and distribution costs of the leaflet was £8,000, leaving a shortfall of £1,000 in budget. Mrs Sheen requested whether this shortfall could be bridged by a town council donation of £1,000. Cllr John Adams-Lewis voiced his concern regarding the priority given to “Cardigan” in preference of “Aberteifi” on the lead end of the brochure. He commended the quality and presentation of the design but stressed that the Welsh be given priority. Mrs Sheen replied that the vast majority of leaflets would be distributed in England, thereby necessitating clearly the need for identification which “Cardigan” offered in preference to “Aberteifi” – for pragmatic purposes. Cllr Adams-Lewis replied that in the circumstances he would not be able to support the application. Mrs Sheen added that Menter was following the ‘good practice’ of CCC concerning the wording of the leaflet and that they had received guidance from the Welsh Language Board. Cllr Adams-Lewis stated that he wished his opposition towards the motion be recorded in the minutes. Cllr Gwynfi Jenkins stated that although the Gwyl Fawr Festival was included in the list of events, he questioned the absence of Gwyl Fawr Aberteifi images. It was agreed with Mrs Sheen that a selection of GFA photographs be forwarded for inclusion.

It was proposed by Cllr Wynne Evans and seconded by Cllr Alan Wilson that £1,000 be donated to Menter Aberteifi for the production of the leaflets and development of the website. The proposal was carried by a majority vote.

5. Cadarnhau cofnodion mis Tachwedd (4/11/08).

Derbyniwyd y cofnodion.

Cynigiwyd gan y Cyng. J. Adams-Lewis. Eiliwyd gan y Cyng. A. Wilson

5. Confirmation of November minutes (4/11/08).

The minutes were approved. Proposed by Cllr J. Adams-Lewis. Seconded by Cllr A. Wilson.

6. Materion yn codi o’r cofnodion

Tud. 33 eitem 15: Mynegodd y Cyng. Gwynfi Jenkins ei bryder ynglyn â’r polisi i beidio cefnogi cais ariannol yr Eisteddfod Genedlaethol pan y’i chynhaliwyd yn y gogledd.

Cyfeiriodd at Eisteddfodau 1967, 1997 a 2007 fel rhai â chysylltiad agos â beirdd yr ardal, a bod £50 wedi ei gyfrannu at goffrau Eisteddfod Bro Colwyn yn 1995.

Tud. 33 eitem 16: Dywedodd y Maer nad oedd dyddiad wedi ei drefnu i’r is-bwyllgorau gyfarfod.

Tud. 32 eitem 12(i): Nid oedd llythyr wedi ei anfon at BT ynglyn â’r ciosgau ffôn. Disgwylir cadarnhad oddi wrth y cyngor ynglyn â’r cam nesaf.

Tud. 32 eitem 12(d): Nid oedd barn Un Llais Cymru wedi ei geisio ynglyn ag arwyddion diogelwch ar y meysydd chwarae.

6. Matters arising from minutes.

Page 33 item 15: Cllr Gwynfi Jenkins voiced his concern that the policy of not supporting the Eisteddfod Genedlaethol on its northern visit should not be inflexible. He related to the Eisteddfodau of 1967, 1997, and 2007 as being ones with very close connections to the bardic contributors from this area, and that £50 was donated to the Bae Colwyn Eisteddfod of 1995.

Page 33 item 16: The Mayor stated that a date had not been set for the sub-committees.

Page 32 item 12(i): Letter to BT had not been forwarded until further confirmation from Town council to proceed.

Page 32 item 12(d): The opinion of One Voice Wales had not been sought re. signage on the playing fields

7. Datgan Diddordeb gan Gynghorwyr

7. Declaration of Interest by Councillors.

Cyng./Cllr John Adams-Lewis	Cynllunio/Planning rhif 9, tud. 26
Cyng./Cllr Llwyd Edwards	Rhif 4: Menter
Cyng./Cllr Llwyd Edwards	Menter: Guildhall office

8. Gweithgareddau'r Maer. (Dosbarthwyd rhestr ychwanegol o weithgareddau hefyd.)

Sefydlu Maer Trefdraeth (8/11/08), Cinio Sioe Sirol Aberteifi (15/11/08), Ffair Nadolig RNLI (19/11/08), Cyflwyno Rhoddion, Festri Capel Mair (25/11/08), Cynhyrchiad Opera Teifi o "Kiss Me Kate" (26/11/08), Ffair Nadolig Ymchwil Cancr (27/11/08), Cyfweiliad Big Art (28/11/08), "Guiding Christingle" (30/11/08), Noson Fictoraidd (9/12/08).

8. Activities of the Mayor. (An additional list of activities was distributed at the meeting.)

Newport Mayor Making (8/11/08), Cardigan County Show Dinner (15/11/08), RNLI Christmas Fayre (19/11/08), Presentation of Grants, Capel Mair Vestry (25/11/08), Opera Teifi production of "Kiss Me Kate" (26/11/08), Cancer Research Christmas Fayre (27/11/08), Big Art project interview (28/11/08), Guiding Christingle (30/11/08), Victorian Evening (9/12/08).

9. Cynllunio

9. Planning.

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>		<i>Sylwadau Comments</i>
A081059	Ty'r Iet, Caemorgan Road	Estyniad Erection of an extension	Dim Sylwadau/ No observations
A081081	66 Maes y Dderwen	Adeiladu byngalow dormer Erection of a dormer bungalow	Cefnogi/ Support

10. Adroddiadau y Cynghorwyr Sir.

(a) Y Cyng. Mark Cole:

(i) John Evans yw Prif Swyddog Cynllunio newydd Cyngor Sir Ceredigion.

(ii) Mae Adran Priffyrdd CSC wedi cadarnhau y bydd llinell wen warchodol yn cael ei chaniatáu ar y ffordd tu allan i Bryn-yr-haul, Gerddi Napier.

(iii) Y ffin rhwng yr Eglwys Babyddol a Rhos-y-dre: mae CSC wedi cadarnhau bod perchnogaeth yr hen goed sydd i'w symud yn perthyn i'r Eglwys Gatholig. Cyngor yr Eglwys i ddelio â'r mater a CSC i glirio'r sbwriel.

Mynegodd y Cyng. John Adams-Lewis ei bryder ynglyn â'r broblem y caiff ei chreu heb y coed a'r llwyni sydd yn cynnig diogelwch ar hyn o bryd.

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

(i) Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Adams-Lewis ynglyn â'r trosglwyddiad o gyfrifoldeb tai yng Ngheredigion o'r Cyngor Sir i Dai Ceredigion. Pleidleisiodd 69.9% o'r tenantiaid gyda mwyafrif o 53.8% dros y cynnig.

Cyflwynodd y Cyng. Wynne Evans ei adroddiad yn dilyn pwyllgor Clwb 50+.

(i) Cais yn gofyn am fysiau i deithio rhwng Aberteifi a Chaerfyrddin yn amlach.

(ii) Pryderon ynglyn â'r drafniadaeth yn troi ger Penlan.

(iii) Cais i arddangos dogfenni cynllunio tai gwarchodol datblygiad Bath House. Y clerch i ddarganfod y dogfenni at sylw y Cyng. Evans.

(iv) Defnydd inswleiddio a rheiliau i dai. Gwaith yn cael ei gwblhau gan weithwyr lleol.

10. Reports from County Councillors.

(a) Cllr Mark Cole:

(i) John Evans is the new Principal Planning Officer of Ceredigion County Council.

(ii) CCC Highways Dept. has confirmed that a white access protection marking will be allowed on the highway outside Bryn-yr-haul, Napier Gardens.

(iii) Catholic Church/ Rhos-y-dre boundary: CCC have confirmed that ownership of the old trees which are to be removed belongs to the Catholic Church. The Church Council to deal with the matter and CCC to clear the debris.

Cllr J. Adams-Lewis voiced his concern regarding the security problem this might pose without the protection and cover these trees and bushes provided.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

(i) Cllr Adams-Lewis reported that tenants in Ceredigion had voted that Tai Ceredigion be handed responsibility for control of council houses. 69.9% of tenants voted with a majority of 58.3% for the motion.

Cllr Wynne Evans interjected with his report following a meeting with the 50+ Club.

(i) A request for buses to run between Cardigan and Carmarthen more often.

(ii) Concerns re. the Penlan u-turning of vehicles.

(iii) The planning documents for the sheltered housing at Bath House was requested for display to members. The clerk to supply Cllr Evans with relevant documents.

(iv) Loft insulation and handrails for housing. Work completed by local craftsmen.

11. Biliau i'w talu – Adroddiad Incwm a Gwariant hyd 30 Tachwedd 2008

11. Bills to be paid – Income and Expenditure Report to 30 November 2008

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Taledigion / Payee</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
3/11/08	D. E. Owen & Son: Ground maintenance	B3	3076	£1,012.30 (£177.15)
12/11/08	Argraffwyr E. L. Jones Printers	A5	3075	£138.30 (£10.21)
30/11/08	L. W. Jones: Cyflog/Salary	A3	3074	£528.00 (0.00)
30/11/08	John Morris: Bachan Deche/ Handyperson	A18	3077	£122.50 (0.00)
30/11/08	R. G. Evans, Pontrhydyceirt: Installation of Christmas lights	B1	3071	£300.00 (0.00)
30/11/08	Viv Williams: St Dogmaels: Coeden Nadolig/Christmas Tree	B1	3072	£94.00 (£14.00)
30/11/08	Dai Morgan, 14 Ridgeway: 7 Coeden Nadolig/Christmas Trees	B1	3073	£104.00 (0.00)

Cytunwyd bod y biliau i'w talu.

Cynigiwyd gan y Cyng. J. Adams-Lewis. Eiliwyd gan y Cyng. Wynne Evans.

Cytunwyd i dalu £300 o'r arian grantiau sydd wrth law i'r Maer.

Cynigiwyd gan y Cyng. J. Adams-Lewis. Eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins.

Ychwanegodd y Maer bod siec o £200 wedi ei derbyn oddi wrth Glwb Rhedeg Aberteifi, sef cyfraniad o £100 i brosiect Maer 2007-08 a £100 i brosiect Maer 2008-09.

Wedi trafodaeth fer ynglyn â'r gyllideb i amryw eitemau, yn cynnwys costau etholiadol o £1,353.59 a gafwyd yn ystod mis Mai 2008, derbyniwyd yr Adroddiad Ariannol gan y cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. Wynne Evans. Eiliwyd gan y Cyng. J. Adams-Lewis.

Ymholiadau i'w gwneud ynglyn â'r costau etholiadol i Swyddog Ariannol CSC.

It was agreed that the bills be paid.

Proposed by Cllr J. Adams-Lewis. Seconded by Cllr Wynne Evans.

It was agreed that the balance of the donations' budget of £300 be paid to the Mayor.

Proposed by Cllr J. Adams-Lewis. Seconded by Cllr Gwynfi Jenkins.

The Mayor added that a cheque of £200 had been received from Cardigan Running Club (£100 for the Mayor's project 2007-08 and £100 for 2008-09).

After a short discussion re. the budgeting of various items, including the election costs of £1,353.59 incurred during May 2008, the Financial Report was accepted by the council.

Proposed by Cllr Wynne Evans. Seconded by Cllr. J. Adams-Lewis.

Enquiries to be made to the Financial Officer of CCC re. election costs.

12. Gohebiaeth.

12. Correspondence.

<i>Llythyron i'w nodi</i>	<i>Letters to be noted / read</i>
---------------------------	-----------------------------------

Edwina Hart: Ymateb i lythyr oddi wrth y Maer ynglyn â safle pencadlys Ymddiriedolaeth newydd Hywel Dda.	Edwina Hart: response to the Mayor's letter re. situation of headquarters of Hywel Dda Trust
CSC: Trefi Taclus: taflen	CCC: Tidy Towns: brochure
CSC Adran Priffyrdd: nodyn rhif 163925	CCC Highways: slip no. 163925
CSC Priffyrdd: nodyn rhif 163946: Ray Quant	CCC Highways: slip no. 163946: Ray Quant
Advance Legal: Llythyr ynglyn â iawndal i Eve Wilkins yn dilyn damwain ym Maes Radley	Advance Legal: Letter re. claim to Eve Wilkins following accident at Maes Radley
John Francis: hysbyseb hurio swyddfa yn Stryd y Moch	John Francis: particulars re. hire of office at Chancery Lane
CSC: Adroddiad Uned CCTV, Hydref 2008	CCC: CCTV Unit Report, October 2008
CSC: Cau Ffordd Dros Dro, Stryd y Santes Fair, 2/2/2009 hyd 27/2/2009	CCC: Temporary Road Closure St Mary Street: 2/2/2009 to 27/2/2009
CSC: Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2008-11	CCC: Children and Young People's Plan 2008-11
Scope: Gwybodaeth am gasgliad o dy i dy, Ebrill 2009 a 2010	Scope: information re. house collection April 2009 & 2010
Cyngor Henoed Ceredigion: diolch am rodd	Age Concern Ceredigion: ack. for grant
Apêl Arch Noa: diolch am rodd	Noah's Ark Appeal: ack. for grant
G. K. Beulah: Prisiau am dariannau, etc.	G. K. Beulah: Price list for plaques, etc.
Charity Commissioners: cais am ddogfen: Cae Chwarae Brenin Siôr V	Charity Commissioners: demand for return: King George V Playing Field
Nicholas Bourne: sylwadau ynglyn â safle'r Ymddiriedolaeth	Nicholas Bourne: observations re. location of new Trust
Panel Dyfarnu Cymru: Adroddiad 2007-08	Adjudication Panel for Wales: Report 2007-08
CSC: Rhybudd Cyhoeddus: Is-Etholiad	CCC: Public Notice: By-election
Green Tech: taflen (meinciau)	Green Tech: Brochure (benches)
Nick Newland: Llythyr yn egluro ei safiad ar prosiect y "Big Art"	Nick Newland: letter explaining his stance on the Big Art project
Cynulliad Cymru: Galwad am Dystiolaeth (cyflog a lwfansau AC)	Welsh Assembly: Call for Evidence (AMs pay and allowances)

Signs Workshops: taflen (meinciau)	Signs Workshops: brochure (benches)
CSC: Mesurau Posib i Leihau Cost Goleuo Strydoedd	CCC: Possible Measures to Reduce Street Lighting Costs
Alun Davies AC: derbyn gwahoddiad: Sul y Cadoediad	Alun Davies AM: Acceptance of invitation to attend Remembrance Sunday Service
CSC: Torri'r ffawydden yng Ngerddi Fictoria	CCC: Cutting of the beech tree at Victoria Gardens
Eglwys y Santes Fair: cais am gymorth ariannol	St Mary's Church: request for financial aid
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Rhyddid Gwybodaeth: cynllun cyhoeddi enghreifftiol newydd 2009	Information Commissioner's Office: Freedom of Information: new model publication scheme 2009
CSC: ateb i ofynion Trwynyrallt	CCC: response to the Trwynyrallt correspondence
RAFA: gwahoddiad i neithior ym Mhrifysgol Aberystwyth, 3/2/2009, 7.00yh	RAFA: invitation to a reception at Penbryn, Aberystwyth University, 3/2/2009, 7.00pm
Awdurdod Heddlu Dyfed Powys: Eich Arian Chi, Eich Barn Chi	Dyfed Powys Police Authority: You Pay, You Say,
Cyngor Henoed Ceredigion: Cadw'n Gynnes yng Ngheredigion	Age Concern Ceredigion: Keeping Warm in Ceredigion
Photostatic: llythyr gwybodaeth am staff	Photostatic: information re. personnel
Clybiau Ffermwyr Ceredigion: diolch am rodd	Ceredigion YFCs: ack. of grant
Nerys Evans AC: Ymateb ynglyn â lleoliad pencadlys Ymddiriedolaeth Hywel Dda	Nerys Evans AM: response re. location of new Hywel Dda Trust headquarters
Clwb Rhedeg Aberteifi: Derbyniwyd siec am £200	Cardigan Running Club: Cheque for £200 received
CSC: e-bost oddi wrth Arwyn Morris ynglyn â chostau CCTV 2008-09, sef £8,000 y flwyddyn	CCC: e-mail from Arwyn Morris re. CCTV charge for 2008-09, £8,000 per annum
Chldline: diolch am gymorth ariannol	Childline: ack. for financial assistance
CSC: Adran Priffyrdd: derbyniad rhif 73305	CCC: Highways: ack. no. 73305
CSC: Sesiwn hyfforddi ynglyn â Chôd Ymddygiad a dyddiadau yr is-bwyllgorau Safonau	CCC: Training sessions re. Code of Conduct and Standards Sub-committee meeting dates
Edwina Hart: Ymateb ynglyn â lleoliad pencadlys yr Ymddiriedolaeth Iechyd newydd	Edwina Hart: response re. location of new Health Trust HQ

Nerys Evans AC: Ymateb ynglyn â lleoliad pencadlys yr Ymddiriedolaeth Iechyd newydd	Nerys Evans AM: response re. location of new Health Trust HQ
Nicholas Bourne AC: Ymateb ynglyn â lleoliad pencadlys yr Ymddiriedolaeth Iechyd newydd	Nicholas Bourne AM: response re. location of new Health Trust HQ
Mark Williams AS: Ymateb ynglyn â lleoliad pencadlys yr Ymddiriedolaeth Iechyd newydd	Mark Williams AM: response re. location of new Health Trust HQ
Advance Legal: Ymateb i lythyr blaenorol y clerik	Advance Legal: response to the previous letter from the clerk
Clwb Rygbi Aberteifi: Ymateb ynglyn â'r Cae Chwarae.	Cardigan RFC: response re. King George V Plaing Field
John Morris (Bachan Deche): Adroddiad	John Morris (handyperson): Report
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Calendr	Environment Agency Wales: Calendar
Glasdon UK: Taflen ynglyn â chyfarpar ar hyd a lled y dre	Glasdon UK: Brochures re. Town Council urban equipment

(a) Taflen Trefi Taclus i'w hanfon i is-bwyllgor Hamdden a Phrifyrdd.

Tidy Towns brochure to be forwarded to Recreation and Highways Sub-committee.

(b) Advance Legal: Llythyr i'w anfon i CSC i gadarnhau perchnogaeth cae chwarae Maes Radley.

Advance Legal: letter to be forwarded to CCC to confirm ownership of Maes Radley playing field.

(c) Taflen Green Tech i'w hanfon i is-bwyllgor Hamdden a Phrifyrdd.

Green Tech brochure to be forwarded to Recreation and Highways Sub-committee.

(d) CSC: Sesiwn hyfforddi ynglyn â Chôd Ymddygiad 28/1/09.

Y Clerik a'r Cynghorwyr Linda Grace, Nicky Charlton-Lewis a Wynne Evans i fynd yno.

CCC: Training session re. Code of Conduct 28/1/09.

The Clerk, and Cllrs Linda Grace, Nicky Charlton-Lewis and Wynne Evans to attend.

(e) Adroddiad y Bachan Deche: Y Cyng. John Adams-Lewis i wneud ymholiadau gyda Peter Mathis, CSC ynglyn â glanhau y Senotaff a hefyd edrych i mewn i ailwneud y cwrbyn er mwyn hwyluso'r llwybr i gadeiriau olwyn.

Handyperson's Report: Cllr John Adams-Lewis to make enquiries re. sandblasting the War Memorial and also to alleviate the problem of the pathway leading to the memorial for wheelchair users.

13. Adroddiadau'r is-bwyllgorau (gweler tudalen 46)

(a) Is-bwyllgor yr Asesiad Risg.

Nid oedd materion yn codi.

(b) Is-bwyllgor Priffyrdd.

Materion yn codi: Gofynnwyd i gynghorwyr ddychwelyd y mapiau a'r wybodaeth i'r Cyng. David Grace erbyn yr is-bwyllgor nesaf, 16 Rhagfyr.

13. Sub-committee reports (see page 46)

(a) Assessment Risk sub-committee.

There were no matters arising.

(b) Highways sub-committee.

Matters arising: Councillors were asked to return maps to Cllr. D. Grace by the next sub-committee meeting on the 16th of December.

14. Derbyn Atodiad yr Asesiad Risg.

Derbyniwyd y ddogfen ar ei newydd wedd gan y cyngor.

Y ddogfen i'w harchwilio yn gyson.

Cynigiwyd gan y Cyng. Alan Wilson. Eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis.

14. To accept the Risk Assessment Schedule.

The revised Risk Assessment schedule was accepted by the council. The schedule to be reviewed periodically.

Proposed by Cllr Alan Wilson. Seconded by Cllr John Adams-Lewis.

15. Dathliadau 2010 i'w trafod.

Derbyniwyd adroddiad fel a ganlyn oddi wrth y Cyng. Llwyd Edwards:

Digwyddiadau posib: Cyngerdd Dydd Gwyl Ddewi; "Pethach yn yr Atig", Arddangosfa

Luniau; Cymanfa Ganu (cysylltu â chwmi teledu); Te Parti i Blant yn Neuadd y Dref. Y prif

wythnos: Awst 14-22 2010 gyda'r Wyl Afon a Bwyd ar 18 Awst. Mae'r pwyllgor yn gobeithio

darganfod grant am £5,000.

Y Cyng. Edwards i gyflwyno adroddiad pellach i is-bwyllgor 2010 ar 16 Rhagfyr.

15. 2010 Celebrations for discussion.

A report as follows was presented by Cllr Llwyd Edwards:

Proposals of possible events: St David's Day concert, "Things in your Attic", Photographic exhibition, Cymanfa Ganu (TV company to be approached), Children's Tea Party at the Guildhall. The main week to be 14-22 August 2010 with the River & Food Festival on 18 August. A £5,000 bid for grant aid was sought.

Cllr Edwards to report to the 2010 sub-committee on 16 December.

16. Neuadd y Dref, Swyddfa'r Clerc a Siambr y Cyngor (Mewn Pwyllgor)

16. The Guildhall, Clerk's Office and Council Chamber (In Committee)

17. Materion Personél (Mewn pwyllgor)

17. Personnel Matters (In Committee)

18. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

18. Any Other Business at the Mayor's discretion.

Gan nad oedd materion eraill, terfynwyd y cyfarfod gan y Maer am 8.25yh.

There being no other matters, the Mayor closed the meeting at 8.25pm.

Adroddiadau'r Is-Bwyllgorau Sub-Committee Reports

Cofnodion is-bwyllgor yr Asesiad Risg a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2008.

Minutes of the meeting of the Risk Assessment sub-committee held on the 18 November 2008.

Yn bresennol/Present : **Y Cyng.**/Cllrs A. Wilson, M. Morris, Ll. Edwards, M. Cole, N. Charlton-Lewis, Melfydd George, John Adams-Lewis, David Grace and the Clerk.

Ymddiheuriadau/Apologies : **Y Cyng.**/Cllrs Wynne Evans, Gwynfi Jenkins, Catrin Miles

Trafodwyd y mater canlynol:

Trafodwyd model yr Asesiad Risg a addaswyd i ddefnydd Cyngor Tref Aberteifi. Y Clerc i anfon fersiwn newydd i gynghorwyr erbyn cyfarfod llawn y cyngor nesaf.

The following issue was discussed :

The model risk assessment was discussed and modified for Cardigan Town Council purposes. The Clerk to supply new version to councillors by next council meeting for discussion.

Cofnodion yr is-bwyllgor Priffyrdd a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2008.

Minutes of the meeting of the Highways sub-committee held on the 18 November 2008.

Yn bresennol/Present : Y Cyng./Cllrs A. Wilson, M. Morris, Ll. Edwards, M. Cole, N. Charlton-Lewis, Melfydd George, John Adams-Lewis, David Grace and the Clerk.

Ymddiheuriadau/Apologies : Y Cyng./Cllrs Wynne Evans, Gwynfi Jenkins, Catrin Miles

Trafodwyd y mater canlynol:

Cynghorwyr i ddynodi lampau strydoedd yn eu hardaloedd penodedig ac i ddod ag adroddiad i'r is-bwyllgor priffyrdd nesaf. Y bwriad yw dynodi'r lampau sydd tan awdurdod Cyngor Tref Aberteifi.

The following issue was discussed :

The main business was the distribution of street maps showing lighting attributed to Ceredigion. Councillors were asked to take a map and to check them, adding any lighting that is not shown. This audit is intended to identify lighting that may be the responsibility of the Town Council.

Arwyddwyd/Signed: (Cadeirydd/Chairperson)

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'D. Grace', with a horizontal line underneath.

Dyddiad/Date : 6 Ionawr 2009